

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cylchfan Hardwick yr A40, System Gylchu Hardwick yr A40 a Chefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

The A40 Hardwick Roundabout, A40 Hardwick Gyratory and A40, A465 and A4042 Trunk Roads (Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2025

Gwnaed 7 Chwefror 2025
Yn dod i rym 17 Chwefror 2025

Made 7 February 2025
Coming into force 17 February 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A40, A465 and A4042 trunk roads, are satisfied that traffic on the specified lengths of the trunk roads should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cylchfan Hardwick yr A40, System Gylchu Hardwick yr A40 a Chefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Chwefror 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A40 Hardwick Roundabout, A40 Hardwick Gyratory and A40, A465 and A4042 Trunk Roads (Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2025 and this Order comes into force on 17 February 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y cefnffyrdd” (“the trunk roads”) yw cefnffyrdd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig, yr A465 Casnewydd i'r Amwythig a'r A465 Castell-nedd i'r Fenni;

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“cerbyd esempt”) means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 17 Chwefror 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A40 Raglan to Llandovery, the A4042 Newport to Shrewsbury, the A465 Newport to Shrewsbury and the A465 Neath to Abergavenny trunk roads;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 17 February 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works have been removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

8. —(1) Nid yw'r gwaharddiadau na'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Chwefror 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 3 to this Order during such times as the restriction referred to in article 6 is in operation.

Application

8. —(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

9. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the trunk roads specified in Schedules 2 and 3 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 5 and 6 are in operation.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

7 February 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro

Cam 1 Yr A40 Monmouth Road, y Fenni

Yr A40 Monmouth Road, y Fenni o'i chyffordd â Chylchfan Hardwick hyd at y gyffordd i Ystad Ysbytty Fields (Ffordd Gobannium).

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A40 i fynd ar yr A465 i Lan-ffwyst, yr A4143 Merthyr Road a'r A40.

I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A40.

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists

Phase 1 A40 Monmouth Road, Abergavenny

A40 Monmouth Road, Abergavenny from its junction with the Hardwick Roundabout to the junction to Ysbytty Fields Estate (Gobannium Way).

Diversions

Northbound A40 traffic via the A465 to Llanfoist, A4143 Merthyr Road and A40.
Southbound A40 traffic vice versa.

Cam 2
Yr A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni

O'i chyffordd ag ymyl ffisegol System Gylchu yr A40 tua'r gogledd hyd at gyffordd y B4521.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465. Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A465 i fynd ar yr A49 (Henffordd i Rosan ar Wy) a'r A40.

Cam 3
Yr A40 System Gylchu Hardwick (Cau'n Rhannol)

O'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Hardwick hyd at ganol yr ynys hollti rhwng y manau i ymuno ac ymadael â'r A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465. Traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 i fynd ar yr A4042 i Gasnewydd, yr M4, yr A449 yna'r A40.

Cam 4
Yr A40 System Gylchu Hardwick (Cau'n Rhannol)

O gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Hardwick hyd at ganol yr ynys hollti rhwng y manau i ymuno ac ymadael â'r A40 i Raglan.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465. Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A465 i fynd ar yr A49 (Henffordd i Rosan ar Wy) a'r A40. Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r dwyrain i fynd ar yr A4042 i Gasnewydd, yr M4, yr A449 i'r A40.

Cam 5
Yr A40 System Gylchu Hardwick (Cau'n Rhannol)

O ganol yr ynys hollti rhwng y manau i ymuno ac ymadael â'r A40 y Ffordd i Raglan a cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Hardwick.

Dargyfeiriad

Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r gorllewin i fynd ar yr A40, yr A449 i Gasnewydd, yr M4, yr A4042 i Hardwick yna i'r Fenni.

Phase 2
A465 Abergavenny Eastern Bypass

From its junction with the physical edge of A40 Gyratory north to the junction of the B4521.

Diversions

Northbound A465 traffic via the A40 and B4521 to Triley to rejoin A465.
Southbound A465 traffic via the A49 (Hereford to Ross on Wye) & A40.

Phase 3
A40 Hardwick Gyratory (Partial Closure)

From its junction with the circulatory carriageway of the Hardwick Roundabout to the centre of the splitter island between the entry and exit to the A465 Abergavenny Eastern Bypass.

Diversions

Northbound A465 traffic via the A40 and B4521 to Triley to rejoin A465.
Eastbound traffic for the A40 or B4598 via the A4042 to Newport, M4, A449 to A40.

Phase 4
A40 Hardwick Gyratory (Partial Closure)

From the circulatory carriageway of the Hardwick Roundabout to the centre of the splitter island between the entry and exit to the A40 to Raglan.

Diversions

Northbound A465 traffic via the A40 and B4521 to Triley to rejoin A465.
Southbound A465 traffic via the A49 (Hereford to Ross on Wye) & A40.
Traffic for the eastbound A40 or B4598 via the A4042 to Newport, M4, A449 to A40.

Phase 5
A40 Hardwick Gyratory (Partial Closure)

From the centre of the splitter island between the entry and exit to the A40 to Raglan Road and the Hardwick Roundabout circulatory carriageway.

Diversion

Traffic for the westbound A40 or B4598 via the A40, A449 to Newport, M4, A4042 to Hardwick to Abergavenny.

Cam 6
Cefnffordd yr A4042

O'r gerbyttffordd gylchredol i Gylchfan Hardwick hyd at bwynt 500 metr i'r de o'r gylchfan.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A4042 i fynd ar yr A40, yr A449 yna'r M4 i ailymuno â'r A4042.
Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A4042 i fynd ar yr M4, yr A449 a'r A40 i'r Fenni.

Cam 7
Cylchfan Hardwick yr A40 (Cau'n Rhannol) gan gynnwys ffyrdd ymuno ac ymadael yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a ffordd ymuno yr A4042 o Bont-y-pŵl

O'r ynys ffisegol sy'n ffurfio'r ffordd ymuno rhwng yr A40 y Ffordd i Raglan a'r A4042 y Ffordd i Bont-y-pŵl hyd at yr ynys ffisegol sy'n ffurfio'r man i ymuno â'r gylchfan o'r A40 Monmouth Road.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gorllewin ar yr A465 i fynd ar yr A40 Monmouth Road, yr A4143 Merthyr Road a'r A465 yn Llan-ffwyst.
Traffig sydd am deithio tua'r dwyrain ar yr A465 i fynd ar yr A4143 a'r A40 i Gylchfan Hardwick.
Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A4042 i fynd ar yr M4, yr A449 a'r A40 i'r Fenni.
Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A4042 i fynd ar yr A40, yr A449 yna'r M4 i ailymuno â'r A4042.

Bydd traffig yr A40 yn cael ei reoli gan signalau 2-ffordd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i draffig deithio yn wrthglocwedd ar ran o Gylchfan yr A40 / System Gylchu yr A40.

Cam 8
Cylchfan Hardwick yr A40 (Cau'n Rhannol) gan gynnwys ffordd ymuno yr A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni a ffyrdd ymuno ac ymadael yr A40

O'r ynys ffisegol sy'n ffurfio'r ffordd sy'n uno'r A40 Monmouth Road â'r ffordd ymuno rhwng yr A40 y Ffordd i Raglan a'r A4042 y Ffordd i Bont-y-pŵl.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465.
Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A465 i fynd ar yr A49 (Henffordd i Rosan ar Wy) a'r A40.
Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r dwyrain i fynd ar yr A4042 i Gasnewydd, yr M4, yr A449 yna'r A40.
Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r gorllewin i fynd ar yr A40, yr A449 i Gasnewydd, yr

Phase 6
A4042 Trunk Road

From the circulatory carriageway to the Hardwick Roundabout to a point 500m south of the roundabout.

Diversions

Southbound A4042 traffic via A40, A449, M4 to rejoin A4042.
Northbound A4042 traffic via M4, A449, A40 to Abergavenny.

Phase 7
A40 Hardwick Roundabout (Partial Closure) including the A465 Heads of Valley exit and entry roads & the A4042 entry road from Pontypool

From the physical island forming the entry between the A40 to Raglan Road and the A4042 to Pontypool Road to the physical island forming the roundabout entry from the A40 Monmouth Road.

Diversions

A465 westbound traffic via the A40 Monmouth Road, A4143, Merthyr Road to the A465 at Llanfoist.
A465 eastbound traffic via A4143 and A40 to Hardwick Roundabout.
Northbound A4042 traffic via M4, A449, A40 to Abergavenny.
Southbound A4042 traffic via A40, A449, M4 to rejoin A4042.
A40 traffic will be under traffic control with 2-way signals which will require traffic to pass anticlockwise on a section of the A40 Roundabout / A40 Gyratory.

Phase 8
A40 Hardwick Roundabout (Partial Closure) including both the A465 Abergavenny Eastern Bypass entry road & the A40 exit and entry roads

From the physical island forming the entry between the A40 Monmouth Road and the entry between the A40 to Raglan Road and the A4042 to Pontypool Road.

Diversions

Northbound A465 traffic via the A40 and B4521 to Triley to rejoin A465.
Southbound A465 traffic via the A49 (Hereford to Ross on Wye) & A40.
Traffic for the eastbound A40 or B4598 via the A4042 to Newport, M4, A449 to A40.
Traffic for the westbound A40 or B4598 via the A40, A449 to Newport, M4, A4042 to Hardwick to Abergavenny.
A4042, A465 Heads of the Valley and A40 Monmouth Road will be under 3-way signal control which will require traffic to pass anticlockwise on a section of the A40 Roundabout / A40 Gyratory.

M4, yr A4042 i Hardwick yna i'r Fenni.

Bydd yr A4042, yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r A40 Monmouth Road yn cael eu rheoli gan signalau 3-ffordd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i draffig deithio yn wrthglocwedd ar ran o Gylchfan yr A40 / System Gylchu yr A40.

Cam 9
Yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r
Gorllewin

O'r gerbyttffordd gylchredol hyd at Gylchfan Hardwick tua'r gorllewin am bellter o 1300 o fetrau.

Dargyfeiriad

Dilyn yr A40 Monmouth Road, yr A4143 Merthyr Road hyd at yr A465 yn Llan-ffwyst.

Cam 10
Yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r
Dwyrain

O'r ffordd ymadael i Lan-ffwyst hyd at ymyl y gerbyttffordd gylchredol wrth Gylchfan Hardwick.

Dargyfeiriad

Dilyn yr A4143 a'r A40 i Gylchfan Hardwick.

Bydd yr holl lwybrau dargyfeirio yn cael eu dangos gan arwyddion traffig priodol a byddant yn amrywio, yn dibynnu ar gyfnod y gwaith a pha ffyrdd sydd ar gau i gerbydau modur a beiciau pedal.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40mya Dros Dro

Yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd am tua 1.8 cilometr o Gylchfan Hardwick tuag at ffyrdd ymuno ac ymadael yr A4143 yn Llan-ffwyst, ac oddi yno.

Yr A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni am tua 2.5 cilometr o System Gylchu Hardwick hyd at y ffordd i ymuno â'r B4521 (Old Ross Road).

Yr A40 Monmouth Road am tua 0.2 cilometr o Gylchfan Hardwick.

Yr A40 y Ffordd i Raglan am tua 1.6 cilometr o Gylchfan Hardwick.

Cylchfan Hardwick yr A40 ei hun (tua 0.2 cilometr).

Yr A40 System Gylchu Hardwick ei hun (tua 0.7 cilometr).

Phase 9
A465 Heads of Valley Westbound

From the circulatory carriageway to the Hardwick Roundabout west for distance of 1300m.

Diversion

Via the A40 Monmouth Road, A4143 Merthyr Road to the A465 at Llanfoist.

Phase 10
A465 Heads of Valley Eastbound

From the exit to Llanfoist up to the edge of the circulatory carriageway at Hardwick Roundabout.

Diversion

Via the A4143 and A40 to Hardwick Roundabout.

All Diversion routes will be indicated by appropriate traffic signs and will vary, depending on the phase of works and which roads are closed to motor vehicles and pedal cycles.

SCHEDULE 2

Temporary 40mph Speed Limit

The A465 Heads of the Valleys Road for approx. 1.8km from the Hardwick Roundabout to and from the A4143 exit and entry slip roads at Llanfoist.

The A465 Abergavenny Eastern Bypass for approx. 2.5km from the Hardwick Gyratory to the B4521 entry (Old Ross Road).

The A40 Monmouth Road for approx. 0.2km from the Hardwick Roundabout.

The A40 to Raglan Road for approx. 1.6km from the Hardwick Roundabout.

The A40 Hardwick Roundabout itself (approx. 0.2km).

The A40 Hardwick Gyratory itself (approx. 0.7km).

SCHEDULE 3

Temporary 10mph Speed Limit and No Overtaking

The A40 Hardwick Roundabout itself (approx. 0.2km).

The A40 Hardwick Gyratory itself (approx. 0.7km).

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder 10mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Cylchfan Hardwick yr A40 ei hun (tua 0.2 cilometr).

Yr A40 System Gylchu Hardwick ei hun (tua 0.7 cilometr).